# Gwersi allweddol o'r prosiect Engage to Change

Elisa Vigna, Stephen Beyer, Andrea Meek

**1** Mae pobl gydag anabledd dysgu/awtistiaeth yn gallu gweithio os oes ganddyn nhw'r swyddi cywir a'r gefnogaeth gywir. Y gefnogaeth fwyaf effeithiol ydy cefnogaeth arbenigol a ddarperir gn Hyfforddwr Swydd o fewn Model Cyflogaeth gyda Chefnogaeth.

**2** Y gyfradd cyflogaeth i bobl gydag anabledd dysgu ydy 5.1% a 22% i bobl gydag awtistiaeth yn Lloegr. Mae ystadegau Cymru yn debygol o fod yn debyg. **Y gyfradd cyflogaeth i'r prf brosiect Engage to Change ydy 25%, 44% i'r safleoedd interniaeth Prosiect SEARCH DFN Engage to Change, a 35% ar gyfer pob math o interniaeth[1],** sydd yn profi i fod yn effeithiol iawn.

**3** Y prif ganlyniadau a adroddir gan deuluoedd a phobl ifanc ydy cynnydd mewn **annibyniaeth a hyder**, **iechyd meddwl** gwell, **ansawdd bywyd** gwell, teimladau positif **hunanbarch** a balchder i fod mewn gwaith a gwell **cynhwysiant cymdeithasol.**

**4** Cychwynnodd Engage to Change **newid mewn diwylliant** yn y modd y mae cyflogwyr a chydweithwyr yn edrych ar bobl ifanc gydag anableddau dysgu ac/neu awtistiaeth. Roedd cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r hyfforddiant ar y safle ac argaeledd parhaus Hyfforddwyr Swyddi. Soniodd cyflogwyr am fanteision cyflogi'r bobl ifanc yma, fel eu dibynadwyedd a'u hymorddiad, cynnydd yn yr amrywiaeth yn y gweithlu a chyfrifoldeb cymdeithasol cprfforaethol positif. Mae ein prosiect yn cyfrannu tuag at greu **gweithlu mwy niwroamrywiol yng Nghymru.**

**5** Mae cyfranogwyr wedi adrodd ar gyfradd boddhad uchel i'r prosiect yn gysylltiedig gyda **gweithdrefnau proffilio galwedigaethol** a'r ymagwedd unigol tuag at gyflogaeth, yn hwyluso cydweddu da rhwng lleoliadau gwaith a swyddi a sgiliau a diddordebau personol.








**Darparu'r canfyddiadau allweddol, awgrymwn:**

Gall Llywodraethau Cenedlaethol a Chymru helpu i sicrhau bod y canlyniadau yma ar gael yn ehangach i bobl gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth drwy gydnabod manteision busnes, cymdeithasol ac economaidd cyflogaeth cynhwysol a hyrwyddo'r rhain gyda busnesau, cymunedau ac adrannau perthnasol. **Awgrymwn y strategaethau canlynol:**

1. Deddfu a chyllido **Rhaglen Gyflogaeth gyda Chefnogaeth Genedlaethol a Rhagen Interniaeth Gynhwyso**l i Gymru, allai fod yn hygyrch i unrhyw un gydag anabledd dysgu ac/neu awtistiaeth yng Nghymru i sicrhau bod pawb sydd eisiau gwaith yn cyrraedd eu potensial llawn i fod yn gyflogedig

2. Cydnabod nad ydy rhai gwasanaethau sydd i fod i baratoi pobl ar gyfer gwaith yn effeithiol ac y gallai'r llywodraeth beidio buddsoddi yn y gwasanaethau yma a chyllido'r hyn sydd yn gweithio o ran cael a chynnal pobl mewn cyflogaeth

3. Gwneud y mwyaf o'r **cynllun Mynediad i Waith** ochr yn ocrh gyda Chyflgoaeth gyda Chefnogaeth ac interniaethau fel cyllideb cefnogaeth hyblyg all helpu i greu cae chwarae gwastad i bobl anabl mewn perthynas â gwaith. Gellir defnyddio Mynediad i Waith i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth o drafnidaeth gwael, gweithleoedd anhygyrch ac helpu gydag offer arbenigol

4. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn bwriadu cyflwyno r**haglen Cyflogaeth gyda Chefnogaeth** leol ar draws Prydain i ddefnyddio Hyfforddiant Swyddi ymhellach. Fe fydd angen gwaith pellach os ydy awdurdodua lleol Cymru yn mynd i gefnogi'r strategaeth cyllido Hyfforddiant Swyddi arfaethedig yr Adran Gwaith a Phensiynau.

5. Yn ôl ein profiad yn Engage to Change ni fydd dyheadau'r **Ddeddf Llesiant, y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Gwarant** Ieuenctid yn cyrraedd y bobl yma heb i Gyflogaethy gyda Chefnogaeth fod yn rhan o'r system gefnogi yng Nghymru

Mae **Cynllun Cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru** yn cynrychioli ymagwedd unigol tuag at ddatblygu sgiliau a chyflogaeth i bawb. Mae angen i Lywodraeth Cymru warantu lle i Gyflogaeth gyda Chefnogaeth a chefnogaeth Hyfforddwyr Swyddi yn y trefniadau newydd yma, fel bod pobl gydag anghenion mwy cymhleth yn gallu bod yn rhan o hyn .

**Ymholiadau**

02922 510774

E2C@cardiff.ac.uk

Engage to Change
Cardiff University
Hadyn Ellis Building
Maindy Road
CF24 4HQ